# Cyfarfodydd Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol Gwanwyn 2024

**Fforwm Seneddol Byd-eang, 15-16 Ebrill**




Mae'r Fforwm Seneddol Byd-eang yn cyfarfod â'r rhwydwaith seneddol swyddogol sy'n goruchwylio gwaith Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol, y ddwy brif asiantaeth economaidd ryngwladol a grëwyd gan gytundeb Bretton Woods ar ôl yr Ail Ryfel Byd.  Er bod Banc y Byd yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygiad economaidd mewn gwledydd incwm isel i ganolig, mae gan y Gronfa Ariannol Economaidd gylch gwaith ehangach ym maes llywodraethu economaidd byd-eang ac mae'r ddau gorff yn gyfranwyr dylanwadol at gonsensws polisi ac arloesedd mewn meysydd polisi sy'n amrywio o'r economi, i anghydraddoldeb incwm, addysg, iechyd a'r amgylchedd.

Mae'r Fforwm yn cyfarfod yn gorfforol ddwywaith y flwyddyn a chynhelir cyfarfodydd pum niwrnod Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol yn y gwanwyn a'r hydref bob blwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd pwnc penodol eraill ar-lein ac wyneb yn wyneb hefyd yn ystod y flwyddyn, a drefnir gan ysgrifenyddiaeth Rhwydwaith Seneddol Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol

Ryngwladol sydd wedi'i lleoli ym Mharis.  Mae seneddwyr o unrhyw wlad yn gallu bod yn bresennol – ac mae Senedd Cymru yn cael yr un statws â Senedd y DU yn hyn o beth.  Y gwanwyn hwn, cynrychiolwyd 78 o wledydd yn y digwyddiad tridiau.  Credaf mai dyma'r tro cyntaf i Senedd Cymru gael ei chynrychioli mewn cyfarfod o'r Fforwm.

**Cyfarfod Neuadd y Dref**

Un o uchafbwyntiau'r Fforwm oedd y cyfarfod ag Ajay Banga, Llywydd Banc y Byd, a Kristalina Georgieva, Rheolwr Gyfarwyddwr y Gronfa Ariannol Ryngwladol, am awr yn Neuadd y Dref.

Roedd hyn yn gyfle amhrisiadwy i glywed dadansoddiad uniongyrchol o gyflwr presennol economi'r byd a pholisi economaidd byd-eang gan ddau o'r ffigurau mwyaf dylanwadol mewn dau sefydliad rhyngwladol blaenllaw.

Siaradodd Llywydd Banc y Byd am heriau rhyngwladol cydgysylltiedig economi fregus, ansicrwydd bwyd, newid hinsawdd, tlodi ac argyfwng daearwleidyddol.  Cyfeiriodd at y bwlch mawr rhwng nifer y swyddi sy'n cael eu creu, a nifer cynyddol y bobl ifanc sy'n peryglu'r difidend demograffig y dylai poblogaeth iau ddod ag ef. Un o'r heriau trawsbynciol i lunwyr polisi oedd ehangu a dyblygu modelau arloesol profedig ym maes polisi datblygu economaidd.  Ymhlith meysydd polisi yr ystyriwyd eu bod yn hanfodol bwysig oedd mynediad at ynni yn Affrica, a gwell gofal iechyd i ddinasyddion mewn gwledydd incwm isel i ganolig ledled y byd.  A'r dyddiad targed yn 2030 ar gyfer y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn agosáu'n gyflym, roedd amser yn hanfodol.

Rhoddodd Llywydd y Gronfa ei rhagamcanion ar gyfer yr economi fyd-eang. Roedd twf yn parhau'n sefydlog, ac roedd chwyddiant wedi gostwng.  Ond rhagwelwyd y cyfraddau isaf o dwf economaidd ers degawdau am y pum mlynedd nesaf, ac roedd chwyddiant yn dal yn uwch nag o'r blaen.  Roedd y rhagamcanion o ran twf yn isel oherwydd cynhyrchiant isel.  Nid oes modd i'r economi fyd-eang ymdopi â phwysau cyllidol i ymateb i ragor o argyfyngau economaidd.

**Deallusrwydd Artiffisial (AI)**

Trafododd panel effeithiau AI mewn gwledydd a rhwng gwledydd, gydag enillion o ran cynhyrchiant ond hefyd anghydraddoldeb uwch o bosibl yn codi.

Trafodwyd effaith AI ar ddemocratiaeth.  Yng nghyd-destun twyllwybodaeth, mynegodd Hannah Arendt fod celweddau endemig nid yn unig yn gwneud i bobl gredu'r celwyddau ond eu bod hefyd yn gwneud i bobl ddechrau amau cysyniad y gwirionedd.  Mae Ffugiadau Dwfn yn fygythiad gwirioneddol i lywodraethu democrataidd ar adeg diffyg ymddiriedaeth.

Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â'r potensial cadarnhaol y mae AI yn ei gynrychioli o ran cynyddu'r gallu i ddatrys problemau sefydliadau democrataidd.

Un o'r problemau rydym yn eu hwynebu wrth reoleiddio AI yw penderfynu i bwy rydym yn rhoi'r cyfrifoldeb am bennu'r gwahaniaeth rhwng gwirionedd a ffugrwydd: i'r Llywodraeth, i'r sector preifat neu i'r gymdeithas sifil?

Ymhlith y themâu a drafodwyd oedd y cynnydd enfawr mewn trais ar sail rhywedd ar-lein, y broses enfawr o echdynnu data gan gwmnïau mawr, y terfynau neu'r cyfyngiadau y gellid eu gosod ar y broses anwirfoddol o foneteiddio data a'r defnydd maleisus o AI gan rwydweithiau troseddu cyfundrefnol a sefydliadau terfysgol.

Roedd rhai gwledydd yn amheugar wrth ystyried ymgais arloesol yr UE i reoleiddio AI yn gynhwysfawr drwy'r Ddeddf AI gan fod y model rheoli risg a fabwysiadwyd yn dod o'r sector cyllid. Roedd rhai gwledydd yn ofni hefyd y gallai dull rhy llawdrwm adael y Gorllewin dan anfantais a'r tu ôl i Dsieina a all, yn groes i'r disgwyl, fod yn fwy caniataol.

Roedd gwahanol wledydd yn datblygu gwahanol flychau tywod rheoleiddiol. Roedd rhai gwledydd yn gweld data fel yr olew newydd. Roedd rhai gwledydd yn gweld y risg o don newydd o wladychu algorithmig. Roedd rhai gwledydd fel Latfia yn gweithredu mewn ffordd ragofalus, gan wahardd defnyddio AI yn llwyr, er enghraifft, yn ystod cyfnodau cyn yr etholiad.

**Newid Hinsawdd**

Arweiniodd Llywydd presennol yr Undeb Rhyngseneddol, Llefarydd Senedd Tanzania, y trafodaethau ar newid hinsawdd. Ar ôl blwyddyn neilltuol arall, y consensws oedd nad oedd yn bosibl cadw'r tymheredd rhag codi 1.5 gradd mwyach. Yr unig gwestiwn oedd a allem gymryd camau digonol i'w leihau yn ôl o dan 1.5 gradd yn ddigon cyflym.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Dyfodol sydd ar ddod fel rhan o'r paratoadau i gyflwyno set o gynlluniau ar gyfer ar ôl 2030 yn lle'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2030. Tynnodd rhai cynrychiolwyr sylw at y berthynas rhwng gwrthdaro a newid hinsawdd.

Tynnodd cynrychiolwyr sylw at y ffaith bod rhai gwledydd ar fin dod yn genhedloedd cynhyrchu olew am y tro cyntaf erioed. Onid oedd hi'n bosib i'r gymuned ryngwladol ddyfeisio fframwaith ar gyfer digolledu gwledydd incwm isel am gadw'r olew yn y ddaear?

Pwysleisiodd cynrychiolwyr eraill ein bod yn cyrraedd y terfynau addasu. Er enghraifft, roedd rhai gwledydd ynys yn mynd i ddiflannu.

**Llywodraethu**

Roedd y pwyslais ar lywodraethu da gan Fanc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol yn eu polisïau benthyca a buddsoddi yn thema bwysig. Roedd

mecanwaith atebolrwydd Banc y Byd yn golygu y gall unrhyw ddau berson godi llais ledled y byd a chychwyn ymchwiliad ffurfiol. Dewis yr achwynydd yw ai cydymffurfio neu ddatrys anghydfod yw'r dull a ddefnyddir.

Ar gyfer y Gronfa Ariannol Ryngwladol, roedd yr adroddiadau diagnostig blynyddol, gyda chyfraniad cryf gan seneddwyr, yn bwysig fel y mae mecanweithiau goruchwylio cyllidebau. Er mwyn i fecanweithiau goruchwylio fod yn effeithiol, rhaid i wybodaeth fod yn gywir. Mae cyfraniad y cyhoedd, tryloywder, atebolrwydd drwy rôl y ddeddfwrfa ac adroddiadau archwilio i gyd yn allweddol.

Bu'n rhaid i Wcráin basio 50+ o ddeddfau i fodloni 230 o amodau ynghlwm wrth fenthyca yn 2024. Rhaid i bob swyddog cyhoeddus ddatgan unrhyw swyddi allanol.

**Rhywedd**

Mae cydraddoldeb rhywedd yn thema gynyddol ganolog mewn polisi economaidd a chymdeithasol ledled y byd ac adlewyrchwyd hyn yng nghyfarfodydd y Gwanwyn eleni a'r Fforwm Seneddol Byd-eang yn benodol. Lansiwyd Pennod Menywod newydd o'r Rhwydwaith Seneddol yn y digwyddiad.

Tynnodd aelodau'r panel sylw at y dystiolaeth bod llai na dwy ran o dair o'r hawliau y mae dynion yn eu mwynhau ledled y byd yn cael eu mwynhau gan fenywod (fel y'u nodwyd yng nghyhoeddiad arloesol Banc y Byd *Women, Business and the Law)*. Mae trais ar sail rhywedd yn golygu cost economaidd sylweddol ochr yn ochr â'i effaith ddynol. Mae merched yn cael mwy a mwy o gyfle cyfartal mewn addysg ond yn cael llawer llai o gyfle economaidd ym mhobman. Nid oes unrhyw wlad yn y byd heb fwlch rhywedd. Mae anghydraddoldeb rhywedd yn hollbresennol yn ôl sector fel y mae'r canlynol yn ei ddangos:

- tangynrychiolaeth menywod o fewn systemau bwyd ledled y byd.
- yh peryglon newydd a gynrychiolir gan yr anghydraddoldeb rhywedd sy'n cael eu hamgodio o fewn AI cyfredol a chymwysiadau data mawr. Mae angen cymryd camau rhagweithiol i sicrhau nad yw technoleg newydd yn rhagfarnllyd o blaid status quo anghyfartal.
- Mae aflonyddu rhywiol yn broblem endemig yng nghyd-destun trafnidiaeth, gan fod menywod yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus ond hefyd yn fwy agored yn y cyd-destun hwnnw i bob math o drais ar sail rhywedd sy'n atal rhai menywod rhag manteisio ar y cyfle economaidd sy'n dibynnu ar gymudo.
- Yr heriau o fewn gofal iechyd a'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu ymreolaeth gorfforol i fenywod, gan gynnwys yr hawl i erthylu a rheoli cenhedlu, ynghyd â rhoi diwedd ar anffurfio organau cenhedlu benywod.

Mae anghydraddoldeb rhywedd hefyd yn ffactor allweddol ym maes llywodraethu ac arweinyddiaeth wleidyddol.  Ar hyn o bryd, dim ond chwe gwlad y mae 50% neu ragor o fenywod yn eu cynrychioli. Mae menywod o fewn cabinetau yn dal i gael eu penodi'n weinidogion dros faterion teuluol yn hytrach na chyllid.

Fodd bynnag, mae'r pwyslais ar gydraddoldeb rhywedd yn cael effaith gadarnhaol. Mae'r Aifft, er enghraifft, wedi pasio 23 o deddfau yn ystod y tair blynedd diwethaf ar gydraddoldeb rhywedd e.e. gwahardd gwahaniaethu, pasio deddfau ar seiberdroseddu i amddiffyn menywod ar-lein, troseddoli bwlio ac anffurfio organau cenhedlu benywod a chryfhau cyfreithiau aflonyddu rhywiol.  Yn Kosovo, mae nifer y menywod ar fyrddau wedi cynyddu o 10% i 45%, a thros yr un cyfnod mae wedi gweld y twf economaidd uchaf yn y Balcanau. Yn ddiweddar, Tanzania ddaeth y 19eg wlad i gydnabod trais ar sail rhywedd fel trosedd etholiadol benodol.

Fodd bynnag, mae arwyddion dychrynllyd o negyddol hefyd.  Mae mwy o gred yn arweinyddiaeth menywod ymhlith pobl hŷn ledled y byd nag ymhlith pobl ifanc. Felly, roedd yn hanfodol bwysig herio normau cymdeithasol cyffredinol yn gynnar, er enghraifft mewn ysgolion. Roedd y syniad mai dyn oedd pennaeth y teulu, er enghraifft, yn ffynhonnell llawer o gyfiawnhad dros drais ar sail rhywedd.  Yn y cyd-destun hwn, pwysleisiwyd y byddai herio'r normau cymdeithasol traddodiadol hyn nid yn unig yn sicrhau cyfiawnder i fenywod ond hefyd yn gwella bywyd teuluol i ddynion a bechgyn.

Mae Banc y Byd hefyd wedi cydnabod y gall stigma a gwahaniaethu ynghylch cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd effeithio'n negyddol ar ganlyniadau datblygu.  Am y rheswm hwn, cynhwyswyd sefyllfa lleiafrifoedd rhywiol yn Strategaeth Rhywedd Ddrafft Banc y Byd.

Gofynnais i Hana Brixi, Cyfarwyddwr Byd-eang Banc y Byd ar gyfer Rhywedd, y cwestiwn a ganlyn:

> *"The Draft Gender Strategy includes a focus on the stigma, violence and discrimination experienced by sexual and gender minorities, acknowledging that that has a negative development impact not least on the many women that are members of those communities.  So my question, principally to Hana, is whether we should, therefore, interpret the decision made in the case of Uganda following the passing of its Anti-LGBT law to suspend to suspend any new finance, was not a one-off decision,  but the emergence of a new policy or a principle which will be applied equally in other countries that apply equally draconian legislation.  And I think, particularly, at the moment of Ghana….() where we're awaiting a decision by the Supreme Court and the President, but also other countries where such laws are being debated, for example, in the Kenyan Parliament."*

Atebodd Hana Brixi fel a ganlyn:

> "*On the sexual and gender minorities, obviously, the World Bank Group has strong principles of non-discrimination, inclusion and equal opportunities and across countries,  across all operations that the World Bank Group is engaged in there are environmental and social standards applied that provide the safeguards against discrimination and exclusion and that is the approach that is adopted across all countries and in that context also we have discussions with countries where there are issues that need to be resolved such as in Uganda"*

Mae'n galonogol nodi yn y cyd'-destun hwn fod Strategaeth Rhywedd Banc y Byd sydd bellach wedii chyhoeddi, ei therfynu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd yn cynnwys lleiafrifoedd rhywiol a rhywedd ac yn sail i eiriolwyr mewn gwledydd lleol geisio cael eu cynnwys yn eu gwledydd.  Yn benodol, mae'n dweud:

> *"In many countries, sexual and gender minorities are marginalized and constrained and struggle to access essential services including education, healthcare, social protection, and housing--with negative consequences to society…..*
>
> *The World Bank Group will promote actions in the public and private sectors to enable sexual and gender minorities to access more and better jobs, develop profitable businesses, and emerge as leaders."*

……………………………………………………………

Er bod rhaglen ffurfiol y Fforwm Seneddol Byd-eang yn darparu ar gyfer fforwm â ffocws uchel iawn ar gyfer trafod a chyfnewid gwybodaeth, mae'n rhan fach o'r rhaglen lawer ehangach o ddigwyddiadau sy'n digwydd ar draws pedwar prif adeilad Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol dros bum niwrnod Cyfarfodydd y Gwanwyn.  Mae'r digwyddiadau'n amrywio o ran maint o gannoedd o gyfranogwyr mewn atriwm agored neu ddarlithfa i lai na dwsin mewn ystafell fach.  Mae'r rhaglen yn amrywio ar draws pob maes polisi posibl, o leihau methan mewn gwartheg (clywais mewn seminar am gynllun ymarferol i leihau allyriadau o'r ffynhonnell hon 30% erbyn 2030) i'r heriau a'r cyfleoedd a gynigir gan Gytuniad Pandemig Sefydliad Iechyd y Byd.

Roedd Gweinidogion Cyllid a'u huwch-gynghorwyr ymhlith y bobl oedd yn bresennol, yma ar gyfer cyfarfodydd drws caeedig y Gronfa Ariannol Ryngwladol/Banc y Byd yn fwy ffurfiol.  Ond maent hefyd yng nghwmni aelodau o'r cyhoedd ac roedd cyfle i'r digywilydd fynd at Jeremy Hunt neu Andrew Bailey am sgwrs, neu uwch-arweinyddwyr y Banc neu'r Gronfa, neu hyd yn oed y cewri corfforaethol a'r arweinwyr meddwl y mae cyfarfodydd y Gwanwyn yn eu denu.

Mae Cyfarfodydd y Gwanwyn yn yr ystyr hwnnw yn teimlo fel fersiwn ychydig yn fwy agored a democrataidd o Davos, heb unrhyw ffi mynediad a heb i ymgyrchwyr nac eiriolwyr gael eu gwahodd ochr yn ochr â'r gwleidyddion a'r biwrocratiaid.  Teitl un o'r dadleuon polisi oedd "*The Path for Taxing the Super-Rich – Towards a Progressive Global Taxation Agenda".*  Dw i ddim yn siŵr a fyddai llawer o bobl yn manteisio ar hynny yn Fforwm Economaidd y Byd.  A fy hoff gof o'r cwbl – ochr yn ochr â chael fy nghyflwyno i Tammy, anifail anwes Banc y Byd a chi sy'n gweithio'n rhan-amser i ganfod bomiau (gweler isod) – oedd cwrdd â Llywydd Banc y Byd wrth iddo grwydro o gwmpas y lluniau o'r dyfodol a dynnwyd gan blant o bob cwr o'r byd.  Efallai fy mod i'n breuddwydio, ond fe roddodd ryw ymdeimlad o obaith imi.




**Adam Price Gorffennaf 2024**